

llyfrau; teganau, addurniadau Nadolig; bric a brac, sy'n cynnwys pob math o nwyddau bychain y teimlwch a allai godi ceiniog neu ddwy (neu hyd yn oed bunt neu ddwy) yn y Ffair.

Pris Mynediad i'r Ffair fydd £1, a fydd yn cynnwys paned a bisged. Caiff plant ddod i mewn am ddim.

Gwerthfawrogi y gefnogaeth dda i'r Ffair hon bob blwyddyn, a gobeithio'n fawr y ceir yr un gefnogaeth eleni eto.

Bydd yr elw at waith Capel Coch.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Gwener, Tachwedd 18: 'Agor y Llyfr' yn Ysgol Gwaun Gynfi.

Dydd Sul, Tachwedd 20: Oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Tachwedd 20: Oedfa am 10.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Glenys Jones, Pwllheli. Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Charles W Jones, Llanrug.

REHOBOTH

Dydd Sul, Tachwedd 20: Ni chynhelir oedfa.

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 13

5.00 p.m. - Dr Huw Tegid Roberts

Tachwedd 20

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 27

5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams

BETHLEHEM

Dydd Iau, Tachwedd 17: Bwrlwm am 2.00 o'r gloch.

Sul, Tachwedd 20: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch ac oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Cledwyn Williams.

CARMEL

Dydd Llun, Tachwedd 14: Y Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Tachwedd 18: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 20: Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Gwyndaf Jones.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Tachwedd 14: Cyfarfod Gwedd yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.

Nos Fawrth, Tachwedd 15: Noson i bobl ifanc hŷn (Blwyddyn 10 ac uwch) yn Yr Institiwt, Llanrug, o 6.30 tan 7.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog (Oedfa Gymun)

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Tachwedd 20

10.00 a.m. - Y Parchg Glenys Jones

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Charles W Jones

Tachwedd 27

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Morgan Bryn Williams, Pwllheli, sy'n cael profiad o waith y Weinidogaeth gyda ni, sy'n sgwennu'r tro hwn.

Yng nghanol holl gyffro'r Etholiad yn yr Unol Daleithiau, a'i ganlyniad sydd wedi taro'r byd gwleidyddol oddi ar ei echel dros y dyddiau diwethaf mae cyfnod Diolchgarwch yr Americanwyr yn dod yn nes. 'Sgw'n i am beth fydd nifer o bobl yno'n teimlo'n ddiolchgar? Efallai bydd rhai'n diolch bod y dyn yma, sydd i'w weld fel arwr i rai, wedi cael ei benodi yn Arlywydd. Efallai bod rhai'n pendroni ac yn ei chael yn anodd iawn i feddwl am unrhyw beth i ddiolch amdano. Yn sicr, bydd nifer fawr o bobl yn ddiolchgar iawn bod yr Etholiad drosodd.

Rydym ni hefyd wedi cael cyfle ychydig wythnosau'n ôl i ddiolch am yr holl bethau sydd gennym ni. Weithiau, mae'n hawdd iawn anghofio bod yn ddiolchgar, a dim ond meddwl am yr holl bethau sydd gennym ni adeg y Diolchgarwch; ond fel dywed yr emyn hynod o syml i blant: "Cofia bob amser, cofia bob tro, paid ag anghofio dweud diolch". Weithiau, nid ydym yn sylweddoli'r holl bethau yr ydym yn eu cymryd yn ganiataol. Er enghraifft, er eu bod wedi dewis y fath berson i fod yn Arlywydd drostyn nhw, rhaid i'r Americanwyr gofio nad oes gan lawer iawn o wledydd dros y byd ryddid i leisio eu barn ac i ddewis arweinydd. A ninnau hefyd, pa mor aml ydan ni yn cwyno am y Gwasanaeth Iechyd heb

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 705: Dydd Sul, 13 Tachwedd, 2016

Diolch am beth?

sylweddoli ei bod yn ffrainc cael gwasanaeth iechyd mor dda; ac nid yn unig hynny, ond ein bod hefyd yn ei gael am ddim.

Weithiau, mae'n anodd iawn gweld y pethau da a ddaw allan o'r sefyllfaoedd gwahanol yn ein bywydau. Ond daw'r amser lle mae'n bosib edrych yn ôl a gwerthfawrogi'r pethau da a ddaw allan o rai sefyllfaoedd: teuluoedd wedi nesáu at ei gilydd, cyfleoedd cwbl annisgwyl, ac ati. Wrth weddio am gysur gan Dduw trwy'r cyfnodau caled, rydym yn cael nerth ei Ysbryd Glân er mwyn i ni fod yn amyneddgar, i ni weld y pethau da ddaw ohonynt. Bendithia Duw ni hefyd gyda phobl o'n cwmpas i edrych ar ein holau tra rydym yn profi'r amseroedd caled yma, er mwyn ein hatal rhag teimlo'n unig.

Felly o safbwynt gwrthrychol, ydy, mae'r cyfnod hwn yn hanes yr Unol Daleithiau yn gyfnod ansicr, ac mae'r dyfodol yn edrych yn ddu iawn i rai o'r bobl yno. Ond yr Arglwydd Dduw sydd dal i lywodraethu, ac wrth edrych yn optimistaidd ar eu sefyllfa, dim ond am wyth mlynedd, os hynny, y bydd Donald Trump yn rheoli! Ond yn awr, dwi'n gofyn i chi weddio drosto, iddo gael ei amgylchynu gan y bobl gorau ar gyfer y wlad, ac iddo gael ei encinio gyda'r Ysbryd i wneud gwelliannau yn ei wlad, ac yn ystyr gorau posibl ei eiriau, 'make America great again'.

Bendith arnoch yn ystod yr wythnos.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Ond amdanat ti, O ARGLWYDD, y disgwylais; ti sydd i ateb, O ARGLWYDD, fy Nuw. **BEIBL BYW** Oherwydd dywedais, "Na fydded llawenydd o'm plegid i'r rhai sy'n ymffrostio pan lithra fy nhroed." Yn wir, yr wyf ar fedr syrthio, ac y mae fy mhoen gyda mi bob amser. Yr wyf yn cyffesu fy nghamwedd, ac yn pryderu am fy mhechod ... Paid â'm gadael, O ARGLWYDD, paid â mynd yn bell oddi wrthyf, O fy Nuw. Brysia i'm cynorthwyo, O ARGLWYDD, fy iachawdwr-iaeth' (Salm 38:15-18, 21-22).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch heno gan Dr Huw Tegid Roberts, Lllangefni.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am

10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Parchg Dafydd Coetmor Williams.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Dosbarth Beiblaidd

Ail gychwynwyd y Dosbarth Beiblaidd yn Yr Haciau, Penisarwaun nos Fercher diwethaf, gyda chyfres newydd ar y Bregeth ar y Mynydd.

Sul y Cofio

Cynhelir Gwasanaeth Sul y Cofio yn Neiniolen am 9.15 o'r gloch heddiw. Boed y diwrnod hwn yn gyfle i ni weddio dros ein byd, yn arbennig y rhan hynny ohono sydd dan orthrwm rhyfeloedd ar hyn bryd. Os cewch gyfle i ddarllen erthygl y Parchg Glyn Tudwal Jones yn Y Pedair Tudalen yr wythnos hon, gwnewch hynny ar bob cyfrif, er mwyn gweld ei gyfieithiad o ddisgrifiad Janine di Giovanni o 'beth yw rhyfel' ar sail ei phrofiad fel newyddiadurwraig yn Syria.

Bwrlwm

Cynhelir Bwrlwm yn festri Bethlehem, Talybont am 2.00 o'r gloch ddydd Iau, Tachwedd 17. Bydd croeso cynnes am sgwrs a phaned.

Plentyn y Nadolig

Mae bocsys esgidiau Ymgyrch Plentyn y Nadolig yn cael eu paratoi gan gyfeillion Bethlehem, a gobeithir cael y bocsys i gyd i law erbyn prawn dydd Iau.

Efe

Bydd Cynllun Efe yn cynnal noson i 'bobl ifanc hŷn' yn Yr Institiwt, Llanrug nos Fawrth yr wythnos hon, Tachwedd 15. Mae hon ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10 ac uwch, ac wedi ei hanelu ar gyfer rhai sydd wedi bod yn CIC yn Llanberis a Llanrug, ond sydd erbyn hyn yn teimlo'n rhy hen i ddod i ddal i ddod i CIC! Mae croeso hefyd i rai sydd heb fod yn CIC o gwbl wrth gwrs. Bydd byrddau tenis bwrdd a pwl ar gael, a chyfle i sgwrsio a thrafod

Bydd y cyfarfod o 6.30 tan 7.30 o'r gloch.

Os bydd hwn yn llwyddiant, ac os bydd y bobl ifanc yn dymuno hynny, gobeithiwn gynnal cyfarfodydd tebyg yn y dyfodol.

beibl.net print bras

Bydd argraffiad print mwy (neu brint bras) o beibl.net yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn. Mae hwn yn addas ar gyfer y pulpud neu i rai sy'n gweld y print yn fân yn y llyfr a gyhoeddwyd y llynedd.

Tybed a yw eglwysi'r Ofalaeth eisiau copi o'r fersiwn print bras at ddefnydd y pulpud? Mae un eglwys wedi archebu ei chopi yn barod! Rhowch wybod i'r Gweinidog os ydych eisiau copi.

Mae i'w gael am £20 yn lle £25 os caiff ei archebu trwy'r Cyngor Ysgolion Sul cyn diwedd y flwyddyn. Felly, er mwyn medru archebu mewn pryd, rhowch wybod i mi erbyn nos Sul, Rhagfyr 4 os gwelwch yn dda.

Geni

Llongyfarchiadau mawr i Llifon a Bethan Jones, Cwm-y-glo ar enedigaeth eu hail fab Noa Cledwyn ddydd Llun diwethaf. Llongyfarchiadau hefyd wrth gwrs i'r Taid a'r Nain, Colin a Valerie Jones, Bryn Gelli, Llanberis.

Bocsys Nadolig

Fel y soniwyd y Sul diwethaf, bydd cyfle eto eleni i anfon anrhegion Nadolig mewn bocs esgidiau i blant anghenus dramor. Bydd y Gweinidog yn derbyn y bocsys o hyn hyd **nos Sul, Tachwedd 20**. Fel yr eglurwyd y Sul diwethaf, caiff y bocsys hyn eu hanfon anfon at blant a theuluoedd yn Romania, Uganda, Sierra Leone, Cambodia a'r Iwcrain trwy elusen Teams 4 U (nid trwy Ymgyrch Plentyn y Nadolig neu *Operation Christmas Child*). Sefydlwyd Teams 4U gan Dave Cook, y dyn a sefydlodd hefyd Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Er mwyn hwyluso pethau, byddwn yn gweithio trwy Teams 4 U eleni, a chaiff y bocsys eu hanfon i'r ganolfan gasglu ym Mae Colwyn.

Mae taflenni ar gael sy'n cyflwyno gwaith Teams 4 U ac yn egluro beth i'w roi yn y bocs (a beth na ddylid ei roi). Gofynnir am £2.50 gyda phob bocs tuag at gost cludiant. (Gellir gwneud sicciau yn daladwy i 'Teams 4 U'.) Cewch ragor o fanylion am Teams 4 U ar y wefan **www.teams4u.com**. I gael taflen, neu am ragor o wybodaeth am y casgliad yn lleol, ffoniwch y Gweinidog, 01286 872390.

Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig Capel Coch yn y festri am 2.00 o'r gloch, ddydd Mercher, Tachwedd 23.

Fel arfer, bydd yno amryw o stondinau gwerthu. Gofynnir yn garedig am nwyddau ar gyfer y byrddau, fel bwydydd ar gyfer yr hamperi Nadolig; cacennau;